3. 135

# CAN ALARUS,

*Yn rhoddi hanes y Llofruddiaethau a'r Hunan-laadiad, a gyflawnwyd ar y dydd 1af o Fai, 1849; yn mhlwyf Llanwenog, sir Aberteifi; gan ddyn o'r enw Thomas Davies; yr hwn wedi lladd ei wraig a'i blentyn 12 mis oed, yn y modd mwyaf barbaraidd, a osododd derfyn ar ei fywyd ei hun.*

---

Nesewch drigolion Cymru,
Gwrandewch alarus gân;
A'r hanes dra arswydus,
A roed yn awr o'n bla'n;
Er amled yw'r rhybuddion
A ro'ir i ddynion,—mae
Rhyw erchyll lofruddiaethau,
O hyd yn amlhau.

O fewn i blwyf Llanwenog,
Yn Ngheredigion wiw,
Bu llofruddiaethau erchyll,
Nes synu pob dyn byw;
Mae'r hanes dorcalonus,
Yn peri aeth a braw;
Trwy'r holl gym'dogaeth hono,
Mae cwyno ar bob llaw.

Un Thomas Davies ydoedd,
Yn byw mewn fferm ar lan

Dolenog afon Teifi,
Dymunol hyfryd fan;
'Roedd ganddo wraig serchogaidd,
A phedwar plentyn gwych;
Heb un rhyw nod annedwydd,
I'w gwneyd yn wael eu drych.

Yr ydoedd rhyw groesineb,
Ac anghytundeb clir,
Yn ol yr hanes, rhyngddynt
Ers amryw fisoedd hir;
Ac ar ddydd Mawrth y cyntaf,
O Fai, mae'n syndod hyn,
Cyflawnodd ddau lofruddiaeth
A hunanladdiad syn.

Yr oedd y wraig yn ddiwyd,
Yn gweithio yn yr ardd;
Pan ddaeth y llofrudd creulon,
Anraslon heb wahardd;
A chydag arfau llymion,
Fe wnaeth archollion blin,
Ar hyd ei chorff a'i gwddf,
Nes cwympai'n wael ei llun.

Ac yna'r adyn creulon,
A frysiai mewn i'r ty;
A thynu wnaeth yr ellyn,
Trwy wddf ei blentyn cu;
'R hwn ydoedd yn y gwely,
Yn cysgu'n dawel iawn,
Y baban gwan diniwed,
Gadd deimlo llid yn llawn.

GC 358 68980

Fe redai'r dyn annedwydd,
Yn fuan wedi hyn;
I lan yr afon Teifi,
A neidiai iddi'n syn;
Ond daeth i'r lan drachefn,
Cyn iddo foddi'n siwr;
Ar fyr, trwy ymdrech caled,
Er dyfned oedd y dwr.

Er hyny penderfynai,
Ro'i terfyn ar ei oes;
A thynu'r ellyn minog,
I'w wddf wnaeth yn groes;
A thorai amryw glwyfau,
Ar hyd ei gorff ei hun;
Nes syrthiai lawr yn farwol,
Druenus, euog ddyn.

Rhyw olwg flin, alarus,
Arswydus yn ddiwad,
Oedd gweld y tri yn gorwedd,
Fel meirw yn eu gwa'd;
Bu'r wraig hyd bore drannoeth,
Yn fyw mewn cyflwr gwael;
Pryd hyn bu farw o'i chlwyfau,
Nid oedd gwellhad i'w gael.

Fe dynai 'i llef wylofus,
Ryw ddynion tu a'r fan;
Ei golwg oedd druenus,
Bryd hyn mewn cyflwr gwan;
Arferwyd pob rhyw foddion
Meddygol yno gaed;

Ond pob peth yn ddieffaith,---
Bu farw yn ei gwaed,

Ac yntau'r baban gwirion,
Yn ddeuddeg mis o oed;
Gadd deimlo marwol ddyrnod,
Heb wneuthur drwg erioed;
Ac yntau'r tad annedwydd,
Fu farw yr un wedd;
Yr oedd y tri'r un amser,
Yn barod fyn'd i'r bedd.

Mae tri o blant mewn galar,
A hiraeth ar eu hol;
Yr Hwn sy'n dad ymddifaid,
A'u cadwo yn ei gol;
Fel caffont ras i wylio,
Rhag teithio ffyrdd eutad,
Ac yna yn y diwedd,
Fwynhau trugaredd rad.

Boed hyn yn rhybudd prysur,
A chywir ini gyd;
I rodio yn heddychol,
Tra byddom yn y byd;
Gochelwn lwybrau pechod,
Sy'n dwyn i drallod trist,
A rhodiwn lwybrau rhinwedd,
Trwy gredu'n Iesu Grist.